DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Practis Deintyddol Compton House

Dyddiad arolygu: 5 Gorffennaf 2016

Dyddiad cyhoeddi: 6 Hydref 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-7232-7


ⓗHawlfraint y Goron 2016

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Cyd-destun .......... 3

3. Crynodeb .......... 4

4. Canfyddiadau .......... 5

Ansawdd Profiad y Claf .......... 5

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 8

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 13

5. Y Camau Nesaf .......... 15

6. Methodoleg .......... 16

Atodiad A .......... 18

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Compton House yn 20 Penprysg Road, Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr, CF35 6SS, ar 5 Gorffennaf 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y practis yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Compton House yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Practis cymysg sy’n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG yw Practis Deintyddol Compton House.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys naw deintydd, un therapydd, un hylenydd, naw nyrs, rheolwr practis a dau dderbynnydd. Ar adeg ein harolygiad, roedd pedair nyrs o dan hyfforddiant hefyd yn gweithio yn y practis.

## 3. Crynodeb

Roedd rheolwr yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd yn gweithio'n agos gyda pherchennog y practis a'r tîm clinigol ehangach. Gwelsom dîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd y cleifion a wnaeth lenwi a dychwelyd holiadur AGIC wrthym eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarperir.
- Dangosodd y staff broses drylwyr o lanhau a sterileiddio offer deintyddol.
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod y cyfarpar pelydr-X yn ddiogel i'w ddefnyddio.
- Roedd y staff yn gallu disgrifio eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Mae angen i asesiadau risg ysgrifenedig gael eu cwblhau. Y rheswm am hyn yw i adnabod peryglon yn y gweithle a dangos sut y rheolir risgiau er mwyn amddiffyn pobl rhag niwed. Mae hyn hefyd yn ofyniad dan gyfraith iechyd a diogelwch.
- Er mwyn ceisio lleihau croes-heintio, mae angen selio'r bylchau rhwng y waliau a'r lloriau mewn dwy o'r ystafelloedd triniaeth. Yn ogystal, roedd angen adolygu defnydd cynwysyddion hylif golchi dwylo y gellir eu hail-lenwi.
- Mae angen rhywfaint o welliant o ran gwirio cyfarpar i'w ddefnyddio mewn argyfwng. Y rheswm am hyn yw er mwyn gwirio bod y cyfarpar yn ddiogel i gael ei ddefnyddio pe bai argyfwng claf (llewyg).

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom fod cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis. Gwnaeth cleifion a oedd wedi gwneud sylwadau yn ein holiaduron nodi eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cwblhawyd a dychwelwyd cyfanswm o 16 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> *'… mae'r staff yn broffesiynol bob amser ac yn gymwynasgar iawn.'*
>
> *'… y gofal deintyddol gorau imi ei dderbyn erioed.'*
>
> *'Hoffwn i pe na bai apwyntiadau'r hylenydd mor ddrud.'*

Dywedodd yr holl gleifion a wnaeth lenwi a dychwelyd yr holiaduron eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn gan y practis deintyddol.

<u>Gofal gydag urddas</u>

Gwelsom fod pobl a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan staff y practis.

Gwelsom staff yn bod yn garedig a chwrtais tuag at gleifion a oedd yn ymweld â'r practis. Gwnaethom glywed staff hefyd yn bod yn gwrtais wrth wneud galwadau ffôn. Dywedodd pob claf a ddychwelodd holiaduron wedi'u cwblhau wrthym eu bod wedi cael croeso gan staff y practis. Ychwanegodd rhai cleifion eu sylwadau eu hunain gan nodi eu bod wedi cael croeso cynnes iawn.

<u>Gofal amserol</u>

Dywedodd rhai o'r cleifion eu bod wedi gorfod aros i gael eu gweld ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Roedd gwybodaeth ar gael i hysbysu cleifion sut i gael triniaeth ddeintyddol pan fo'r practis ar gau.

Dywedodd dau draean y cleifion a roddodd sylwadau yn holiaduron AGIC wrthym eu bod wedi gorfod aros i gael eu gweld gan y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Cadarnhaodd mwyafrif y cleifion nad oedd hyn wedi bod yn

sylweddol. Fodd bynnag, efallai yr hoffai'r practis edrych ar hyn ymhellach fel y gellir gwneud gwelliannau.

Esboniodd y staff y trefniadau ar gyfer hysbysu cleifion pe bai'r deintyddion yn rhedeg yn hwyr neu'n absennol yn annisgwyl.

Roedd gwybodaeth i gleifion ar sut i gael triniaeth ddeintyddol frys pan oedd y practis ar gau ar gael mewn nifer o wahanol ffyrdd. Dywedodd mwyafrif y cleifion (10) a roddodd sylwadau eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.

Cadw'n iach

Gwelsom fod deunydd hyrwyddo iechyd ar gael yn yr ardaloedd aros. Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth ar gael i gleifion ynglŷn â sut i ofalu am hylendid ac iechyd y geg eu hunain.

Roedd y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. Roedd gwybodaeth ynglŷn â chostau triniaethau wedi'i harddangos yn glir yn yr ystafell aros. Golyga hyn fod gwybodaeth ar gael i gleifion ynglŷn â faint y gallai eu triniaeth ei chostio.

Dywedodd mwyafrif y cleifion a wnaeth lenwi a dychwelyd holiaduron wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol.

Gofal unigol

Roedd y practis yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Rhoddwyd cyfleoedd i gleifion gynnig adborth ar eu profiadau o ddefnyddio'r practis.

Roedd mynediad ar y gwastad i adeilad y practis. Roedd y dderbynfa a'r brif ystafell aros ar lawr gwaelod yr adeilad. Golyga hyn y gallai pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn a phobl sydd ag anawsterau symudedd gael mynediad at yr ardaloedd hyn. Ar gyfer cleifion oedd yn cael trafferth gyda grisiau, roedd modd gwneud trefniadau er mwyn iddynt allu cael eu gweld mewn ystafelloedd triniaeth ar y llawr gwaelod.

Esboniodd rheolwr y practis fod arolygon boddhad cleifion yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn. Roedd hwn yn gyfle i gleifion roi adborth ar eu profiadau. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y practis yn ystyried cyflwyno blwch sylwadau fel y gall cleifion roi sylwadau ar sail barhaol. Ychwanegodd y rheolwr fod gan dîm y practis berthnasau da gyda chleifion a'u bod yn teimlo'n hyderus y byddai cleifion yn lleisio unrhyw sylwadau neu bryderon wrth y staff yn uniongyrchol.

Roedd y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG, ac roedd gweithdrefnau ar waith er mwyn ymateb i bryderon (cwynion). Roedd angen cynnwys peth gwybodaeth ychwanegol er mwyn cydymffurfio'n llawn â *Gweithio i Wella*, sef y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion ynglŷn â thriniaeth y GIG yng Nghymru, a gofynion y rheoliadau cysylltiedig â deintyddiaeth breifat. Yn benodol, roedd angen ychwanegu manylion cyswllt y cyngor iechyd cymuned lleol at y weithdrefn ar gyfer pryderon am driniaeth y GIG. Yn yr un modd, roedd angen cynnwys manylion cyswllt AGIC ar gyfer pryderon am driniaeth breifat. Roedd angen adolygu'r amserlenni ar gyfer ymateb i bryderon am driniaeth breifat, er mwyn cwrdd â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat yn llawn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis adolygu'r gweithdrefnau pryderon (cwynion) fel eu bod yn cwrdd â 'Gweithio i Wella' a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru).***

Roedd gwybodaeth ynglŷn â sut i wneud cwyn wedi'i harddangos yn amlwg yn yr ystafell aros. Bydd angen adolygu'r wybodaeth y'i harddangosir, fel y nodir uchod.

Dywedodd mwyafrif y cleifion (15) a gwblhaodd a dychwelyd holiadur AGIC eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn am y gwasanaethau roeddent wedi'u derbyn.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom fod adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.**

**Dangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.  Roedd hon yn cael ei chynnal mewn ystafell ddadheintio ddynodedig, er mwyn lleihau croes-heintio.Er mwyn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol, roedd angen rhywfaint o welliant o ran y cofnodion y mae'n rhaid eu cadw ynghylch offer sterileiddio.**

**Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn modd diogel.Gwnaethom nodi bod angen rhywfaint o welliant o ran gwirio'r cyfarpar i'w ddefnyddio pe bai argyfwng claf (llewyg).**

**Roedd cofnodion cleifion wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.Fodd bynnag, fe wnaethom nodi bod angen rhywfaint o welliant er mwyn dangos bod cleifion yn cytuno â'u cynlluniau triniaeth a chost eu triniaeth.**

<u>Gofal diogel</u>

Gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd adeilad y practis yn amlwg wedi'i gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o'r practis, fe welsom fod pob ardal yn lân a thaclus heb unrhyw beryglon amlwg. Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol fannau o amgylch y practis a gwelsom fod hwn wedi cael ei wasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf.

I gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, roedd angen i'r practis gofnodi asesiadau risg mewn perthynas â pheryglon yn y gweithle. Cytunodd rheolwr y practis i fynd i'r afael â hyn. Dylai'r practis geisio cyngor gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn hyn o beth.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis gofnodi asesiadau risg mewn perthynas â pheryglon yn y gweithle.***

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) yn ddiogel a gynhyrchid gan y practis. Gwelsom fod gwastraff yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractwyr. Gosodwyd

gwahanyddion amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael eu gwaredu'n ddiogel. Esboniwyd y trefniadau oedd ar waith gyda'r cyngor lleol ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw’n beryglus (domestig).

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol ar ôl eu defnyddio. Roedd cynllun yr ystafell yn bodloni'r egwyddorion, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1),[1] er mwyn lleihau croes-heintio a heintio. Gwnaeth staff arddangos proses lanhau a dadheintio drwyadl ar gyfer offer deintyddol a ddefnyddir yn y practis.

Roedd yr offer glanhau a sterileiddio sy’n cael eu defnyddio yn amlwg mewn cyflwr da ac roedd gan offer aerglos[2] dystysgrif archwiliad diogelwch gyfredol yn cadarnhau ei fod yn ddiogel i’w ddefnyddio. Roedd gwiriadau ar offer yn cael eu cynnal bob dydd i wirio eu bod yn gweithio'n iawn, ac roedd llyfrau cofnodi wedi cael eu cynnal a'u cadw. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, dylai'r practis gynnal cofnod o bob cylch sterileiddio a wneir gan ddefnyddio offer aerglos.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis gadw cofnod o bob cylch sterileiddio a wneir gan ddefnyddio offer aerglos yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.***

Gwnaethom edrych ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis. Roedd y rhain yn lân ac yn daclus ac, ar y cyfan, wedi’u dodrefnu i hwyluso glanhau effeithiol.  Mae angen selio bylchau rhwng y waliau a'r llawr mewn dwy ystafell driniaeth er mwyn rhwystro dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni ac i geisio atal croes-heintio. Gwnaethom hysbysu perchennog y practis a'r rheolwr fel y gellid gwneud trefniadau addas i gwblhau'r gwaith hwn.

---

[1] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[2] Siambr pwysedd yw peiriant aerglos a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy orfodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod y bylchau a welwyd rhwng y waliau a'r llawr yn cael eu selio er mwyn rhwystro dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni yn y cilfannau.***

Roedd hylif golchi dwylo ar gael yn hygyrch fel y gallai'r staff olchi eu dwylo i leihau croes-heintio. Roedd cynwysyddion hylif y gellir eu hail-lenwi'n cael eu defnyddio. Gwnaethom gynghori perchennog y practis a'r rheolwr nad oedd hyn yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, sy'n argymell y dylid defnyddio peiriannau hylif golchi dwylo gyda chetris untro, wedi eu gosod ar y wal, er mwyn atal croes-heintio. Cytunodd perchennog y practis a'r rheolwr i roi sylw i'r mater hwn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis roi'r gorau i ddefnyddio cynwysyddion golchi dwylo y gellir eu hail-lenwi. Dylai wneud trefniadau amgen gan ystyried canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.***

Roedd gan y practis gywasgydd.[3] Nid oedd cofnodion wedi'u cadw i ddangos bod y peiriant hwn yn cael ei wirio yn ddyddiol, i gadarnhau ei fod yn ddiogel. Cadarnhaodd perchennog y practis a'r rheolwr nad oedd profion gwirio dyddiol yn cael eu cynnal.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod profion gwirio dyddiol un cael eu gwneud ar y cywasgydd yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.Rhaid cadw cofnodion o'r profion gwirio hyn a rhaid iddynt fod ar gael i AGIC eu harolygu.***

Roedd trefniadau ar waith i gleifion dderbyn y feddyginiaeth a’r driniaeth gywir pe bai argyfwng. Gwelsom fod cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael. Roedd system ar waith er mwyn gwirio eu bod yn ddiogel i gael eu defnyddio pe bai argyfwng claf (llewyg). Gwnaethom archwilio'r cyffuriau brys a gedwir a gwelsom fod eu dyddiadau dod i ben yn gyfredol. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai offer llwybr anadlu, er eu bod wedi'u selio ac mewn cyflwr da, wedi mynd

---

[3] Mae cywasgydd yn codi pwysedd aer at ddiben triniaethau deintyddol.

heibio eu dyddiadau dod i ben. Pan dynnwyd sylw perchennog y practis a'r rheolwr at y mater hwn, cawsom ein sicrhau y byddai'r rhain yn cael eu newid.

Roedd y llyfrau cofnodi yn dangos bod cyffuriau brys yn cael eu gwirio bob wythnos a bod yr offer argyfwng yn cael ei wirio bob mis. Gwnaethom gynghori perchennog y practis a'r rheolwr y dylid gwirio cyfarpar o leiaf bob wythnos. Mae hyn yn unol â'r canllawiau a gyhoeddir gan y Cyngor Dadebru (DU).[4] Cytunodd perchennog y practis a'r rheolwr i drefnu i wneud hyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis adolygu'r broses ar waith ar gyfer gwirio'r holl gyfarpar brys, gan sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.Dylai'r practis ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Cyngor Dadebru (DU).***

Roedd gan staff fynediad hawdd at gyfres o siartiau llif a oedd yn nodi'r camau y dylid eu cymryd, a'r cyffuriau i'w defnyddio, pe bai argyfwng gyda chlaf. Roedd y rhain yn cael eu cadw mewn waledi plastig, ynghyd â'r cyffuriau oedd i'w defnyddio, er mwyn hwyluso mynediad haws mewn argyfwng. Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dynodi bod hyfforddiant y staff mewn adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) yn gyfredol.

Daethom i'r casgliad bod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn oherwydd bod yr holl ddogfennau a gwybodaeth ofynnol am ddefnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Dangosodd y tystysgrifau hyfforddi a welsom fod y staff wedi diweddaru eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, a'u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Nid oedd y dystysgrif ar gyfer un o'r deintyddion ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Fodd bynnag, cawsom ein sicrhau bod y deintydd wedi diweddaru ei hyfforddiant. Rhaid i'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod tystysgrifau hyfforddiant staff clinigol ar gael i'w harchwilio gan AGIC ar gais.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis wneud tystysgrifau hyfforddiant staff clinigol ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) ar gael i'w harchwilio gan AGIC ar gais.***

---

[4] Mae'r Cyngor Dadebru (DU) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithrediad.

Roedd gweithdrefn wedi'i sefydlu yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy’n dod yn agored i niwed neu mewn perygl. Roedd y cofnodion hyfforddi a welsom yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar faterion diogelu.

Cadarnhaodd y staff y buom yn siarad â nhw eu bod yn teimlo y gallent leisio unrhyw bryderon oedd yn ymwneud â gwaith gydag uwch staff y practis, a'u bod yn hyderus y byddai'r rhain yn derbyn sylw.

<u>Gofal effeithiol</u>

Roedd trafodaethau â pherchennog y practis a'r rheolwr yn dangos bod y practis wedi ymrwymo i wneud ymdrechion i wella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn barhaus.

Rhoddodd perchennog y practis enghreifftiau inni o archwiliadau clinigol a gynhaliwyd. Bwriad y rhain yw gwella ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion neu adnabod gwell ffyrdd o weithio. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau'n ymwneud â rheoli heintiau a delweddau pelydr-X.

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodion. Roedd y sampl hon yn cynnwys cofnodion a gwblhawyd gan y therapydd a'r hylenydd a’r holl ddeintyddion sy’n gweithio yn y practis ar hyn o bryd. Ar y cyfan, roedd y nodiadau'n fanwl ac yn disgrifio asesiad yr ymarferwr o'r claf a'r driniaeth a oedd yn cael ei darparu. Gwelsom fod angen gwelliant fel bod cofnodion yn dangos bod cleifion wedi cytuno â'u cynlluniau triniaeth ddeintyddol a’r gost ar gyfer hon cyn i'r driniaeth gael ei darparu.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn dangos bod cleifion yn cytuno â'u cynlluniau deintyddol a chost eu triniaeth, cyn i'r driniaeth honno gael ei darparu.***

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd rheolwr practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch staff y practis a'r tîm ehangach.Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol.**

Roedd rheolwr practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Roedd y rheolwr practis yn gweithio'n agos â pherchennog y practis.

Yn ystod sgyrsiau â'r staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad, gwelwyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi gan uwch staff a thîm y practis. Gwelsom hefyd fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu gwahanol gyfrifoldebau.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar bynciau oedd yn berthnasol i'w swyddi. Cadarnhaodd y staff hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i ddilyn hyfforddiant. Gwelsom fod y staff yn y practis wedi derbyn arfarniad o'u gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau'r broses hon.

Fe’n hysbyswyd gan y staff eu bod yn teimlo bod cyfathrebu effeithiol ymhlith tîm y practis a bod cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal. Gwelsom gofnodion ysgrifenedig y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mai 2016, a oedd yn dangos bod materion gwaith yn cael eu trafod a gwybodaeth yn cael ei lledaenu.

Canfuwyd gennym fod y staff clinigol wedi’u cofrestru gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer ymarfer ac roedd yswiriant indemniad ar waith. Roedd cofnodion ar gael oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B i amddiffyn eu hiechyd eu hunain ac iechyd cleifion yn erbyn heintiau. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion yn dangos yn glir bob amser a oedd staff wedi datblygu imiwnedd digonol yn hyn o beth.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis gadarnhau â'r staff a ydynt wedi derbyn prawf gwaed yn dilyn imiwneiddio a chymryd camau dilynol fel y bo'n briodol.***

Gwnaethom hefyd hysbysu'r rheolwr bod angen i rai staff clinigol gael profion clirio iechyd pellach yn unol â chanllawiau.[5] Fe'n hysbyswyd gan y rheolwr bod trefniadau ar droed i'r practis gael mynediad at gyngor iechyd galwedigaethol drwy'r bwrdd iechyd lleol. Teimlai y byddai hyn yn derbyn sylw pan fo'r gwasanaeth hwn yn hollol weithredol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis ddiweddaru AGIC ynglŷn â'r cynnydd a wneir i sicrhau bod staff perthnasol yn derbyn cliriadau diogelwch iechyd, yn unol â'r canllawiau.***

Roedd deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd eu tystysgrifau cofrestriad AGIC yn gyfredol ac wedi'u harddangos mewn lle amlwg fel sy'n ofynnol dan reoliadau deintyddiaeth breifat. Roedd pob deintydd wedi cael tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd o fewn y tair blynedd diwethaf, fel sy'n ofynnol dan y rheoliadau a nodir uchod.

[5] Cliriad iechyd ar gyfer twbercwlosis, Hepatitis B, Hepatitis C a HIV: Gweithwyr Iechyd Newydd (HCWs)http://www.wales.nhs.uk/documents/WHC(2007)086.pdf

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir sut a phryd y bydd Practis Deintyddol Compton House yn mynd i’r afael â’r canfyddiadau a adnabuwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer y gwaith hwnnw.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r problemau a adnabuwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â’r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae’r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i’r saith thema weithio gyda’i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae’r safonau’n allweddol i’r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1




Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis sydd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[6] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[7] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

[6] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[7] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Compton House

## Dyddiad yr arolygiad: 5 Gorffennaf 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 7 | Rhaid i'r practis adolygu'r gweithdrefnau pryderon (cwynion) fel eu bod yn cwrdd â *Gweithio i Wella* a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). | Rheoliad 15(4)(a)<br>Safon 6.1 | Mae polisi cwynion preifat ein practis bellach yn nodi enw a chyfeiriad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae polisi cwynion y GIG hefyd yn nodi manylion y cyngor iechyd cymuned erbyn hyn. | Ann Collins | Cwblhawyd |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 8 | Rhaid i'r practis gofnodi asesiadau risg mewn perthynas â pheryglon yn y gweithle. | Rheoliad 14(1)(d)<br>Safon 2.1 | Mae ffolder asesiad risg practis cyfan wedi ei chreu ac mae asesiad risg llawn wedi ei gwblhau. | Lisa Rigby | Cwblhawyd |
| 9 | Dylai'r practis gadw cofnod o bob | Safon 2.9 | Mae teclynnau cofnodi data wedi | Anwen | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | cylch sterileiddio a wneir gan ddefnyddio offer aerglos yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.<br>Pennod 4 Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, paragraff 4.3 | | cael eu gosod ar y ddau awtoclaf. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i'w defnyddio. Gwelir data ar bob cylch ac fe'i argraffir yn ddyddiol. | Hopkins | |
| 10 | Dylai'r practis sicrhau bod y bylchau a welwyd rhwng y waliau a'r llawr yn yr ystafelloedd triniaeth yn cael eu selio er mwyn rhwystro dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni yn y cilfannau.<br>Pennod 6 Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, paragraff 6.47 | Safon 2.4 | Mae sêl silicon wedi cael ei osod, felly nid oes yna unrhyw fylchau mwyach. | Ann Collins | Cwblhawyd |
| 10 | Dylai'r practis roi'r gorau i ddefnyddio cynwysyddion golchi dwylo y gellir eu hail-lenwi. Dylai wneud trefniadau amgen gan ystyried canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.<br>Pennod 6 Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, paragraff 6.12 | Safon 2.4 | Cafwyd gwared ar yr hen gynwysyddion. Mae cynwysyddion golchi dwylo newydd wedi eu prynu ac mae'r staff a'r glanhawr wedi eu hyfforddi i'w hail-lenwi. | Ann Collins | Cwblhawyd |
| 10 | Rhaid i'r practis sicrhau bod profion gwirio dyddiol yn cael eu gwneud ar y cywasgydd yn unol â | Safon 2.9 | Mae [enw person] wedi rhoi hyfforddiant llawn i'n nyrsys deintyddol – yn unol â | Anwen Hopkins | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Rhaid cadw cofnodion o'r profion gwirio hyn a rhaid iddynt fod ar gael i AGIC eu harolygu. | | chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Caiff y cywasgyddion eu gwagio a'u harolygu'n ddyddiol ac fe gedwir cofnod. | | |
| 11 | Dylai'r practis adolygu'r broses ar waith ar gyfer gwirio'r holl gyfarpar brys, gan sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Dylai'r practis ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Cyngor Dadebru (DU).<br><br>Safonau Ansawdd Cyngor Dadebru’r DU ar gyfer Arfer a Hyfforddiant Adfywio Cardio-pwlmonaidd, Gofal Deintyddol Preifat – Rhestr Offer<br><br>https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-dental-care-equipment-list/ | Rheoliad 14(2)<br><br>Safon 2.9 | Cedwir gwiriad wythnosol erbyn hyn. Y person dynodedig yw John Tilley, ein swyddog cymorth cyntaf. | Ann Collins | Cwblhawyd |
| 11 | Rhaid i'r practis wneud tystysgrifau hyfforddiant staff clinigol ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) ar gael i'w harchwilio gan AGIC ar gais. | Safon 7.1 | Fe gollodd [enw person] ei thystysgrif Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol), felly fe'i safodd eto ac mae hi bellach wedi rhoi copi i ni. Mae’r | Ann Collins | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, Rheoliad 11(4) | | Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) bellach wedi eu cynnwys ar restr wirio fisol rheolwyr y practis i sicrhau bod pawb wedi eu diweddaru. | | |
| 12 | Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn dangos bod cleifion yn cytuno â'u cynlluniau deintyddol a chost eu triniaeth, cyn i'r driniaeth honno gael ei darparu.<br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1 | Safon 3.5 | Rydym bellach yn defnyddio ffurflenni FP17DC. Mae'r rhain wedi cael eu dosbarthu i'r holl ystafelloedd triniaeth ac mae hyfforddiant staff wedi ei roi. | Ann Collins | Cwblhawyd |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 13 | Dylai'r practis gadarnhau â'r staff a ydynt wedi derbyn prawf gwaed yn dilyn imiwneiddio a chymryd camau dilynol fel y bo'n briodol. | Safonau 2.1 a 7.1 | Mae'r holl staff wedi eu cofrestru ag iechyd galwedigaethol. Mae yna drafodaeth barhaus gydag iechyd galwedigaethol i geisio cyflawni hyn gan nad ydynt yn gwneud hyn fel rheol. | Ann Collins | Tri mis |
| 14 | Rhaid i'r practis ddiweddaru AGIC ynglŷn â'r cynnydd a wneir i sicrhau bod staff perthnasol yn derbyn | Safonau 2.1 a 7.1 | Yn aros am apwyntiadau ag iechyd galwedigaethol. | Ann Collins | Tri mis |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | cliriadau diogelwch iechyd, yn unol â'r canllawiau. | | | | |

**Cynrychiolydd y practis:**

**Enw (llythrennau bras): ..........Anwen Hopkins...............................................**

**Teitl: ..........Partner...........................................................................**

**Dyddiad: ..........16/9/2016.....................................................................**